

## RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

### Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

### Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

---

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

Mae'r testun mewn italig wedi'i ddarparu gan y sawl a gynigiodd y gwelliant perthnasol i esbonio ei ddiben ac i gynorthwyo'r darllenyydd. Nid yw'r testun yn rhan o eiriad y gwelliant.

The text in italics has been provided by the proposer of the relevant amendment to explain its purpose and to aid the reader's understanding. The text does not form part of the amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –  
The Bill will be considered in the following order –  
Sections 1 - 3; Adrannau 1 - 3;  
Long title Teitl hir

---



**Janet Finch-Saunders**

**1A**

As an amendment to amendment 1, line 2, leave out 'before the coming into force of section 1 to promote public awareness of the changes to the law to be made by that section' and insert 'to promote public awareness and understanding of the changes to the law to be made by section 1'.

*Should this amendment be agreed, there will be a need for a printing change to be made to the heading of this section.*

Fel gwelliant i welliant 1, llinell 2, hepgorer 'cyn i adran 1 ddod i rym er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau i'r gyfraith sydd i'w gwneud gan yr adran honno' a mewnosoder 'er mwyn hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r gyfraith sydd i'w gwneud gan adran 1'.

*Os derbynir y gwelliant hwn, bydd angen gwneud newid argraffu i bennawd yr adran hon.*

**Janet Finch-Saunders**

**1B**

As an amendment to amendment 1, after line 3, insert—

- '() Those steps must include providing or arranging for the provision of information about the following matters—
  - (a) the support available to parents, to enable them to learn and use alternatives to corporal punishment as a method of disciplining a child, and
  - (b) how to access the support that is available.'

Fel gwelliant i welliant 1, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i'r camau hynny gynnwys darparu neu drefnu i ddarparu gwybodaeth ynghylch y materion a ganlyn—
  - (a) y cymorth sydd ar gael i rieni er mwyn eu galluogi i ddysgu am ddulliau amgen i gosb gorfforol, a'u defnyddio, fel ffyrdd o ddisgyblu plentyn, a
  - (b) sut i gael gafael ar y cymorth sydd ar gael.'

**Janet Finch-Saunders**

**1C**

As an amendment to amendment 1, after line 3, insert—

- '() Those steps must include providing or arranging for the provision of information about how a person may raise concerns, if it appears to them, that corporal punishment of a child has taken place in Wales.'

Fel gwelliant i welliant 1, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i'r camau hynny gynnwys darparu neu drefnu i ddarparu gwybodaeth ynghylch sut y caiff person godi pryderon, os yw'n ymddangos iddo fod achos o roi cosb gorfforol i blentyn wedi digwydd yng Nghymru.'



**Janet Finch-Saunders**

**1D**

As an amendment to amendment 1, after line 3, insert—

- '( ) The Welsh Ministers must, in carrying out their duty under subsection (1), have regard to the need to promote awareness among children.'

Fel gwelliant i welliant 1, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '( ) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth gyflawni eu dyletswydd o dan is-adran (1), roi sylw i'r angen i hybu ymwybyddiaeth ymysg plant.'

**Janet Finch-Saunders**

**1E**

As an amendment to amendment 1, after line 3, insert—

- '( ) The Welsh Ministers must, in carrying out their duty under subsection (1), have regard to the need to promote awareness among visitors to Wales.'

Fel gwelliant i welliant 1, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '( ) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth gyflawni eu dyletswydd o dan is-adran (1), roi sylw i'r angen i hybu ymwybyddiaeth ymysg ymwelwyr â Chymru.'

**Julie Morgan**

**1**

Page 1, after line 20, insert a new section—

**[ ] Promoting public awareness of the coming into force of section 1**

The Welsh Ministers must take steps before the coming into force of section 1 to promote public awareness of the changes to the law to be made by that section.'

Tudalen 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd—

**[ ] Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd bod adran 1 yn dod i rym**

Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau cyn i adran 1 ddod i rym er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau i'r gyfraith sydd i'w gwneud gan yr adran honno.'

**Janet Finch-Saunders**

**2C**

As an amendment to amendment 2, after line 1, insert—

- '( ) Before section 1 is commenced, the Welsh Ministers must prepare and lay before the Assembly a report on the effect of their promotion of public awareness under section [new section to be inserted by amendment 1].'

*Should this amendment be agreed, there will be a need for a printing change to be made to the heading of this section, and for consequential amendments to be tabled at Stage 3.*



Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder—

- '() Cyn cychwyn adran 1, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a gosod gerbron y Cynulliad adroddiad ar effaith eu gwaith hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o dan adran [yr adran newydd sydd i'w mewnosod gan welliant 1].'

*Os derbynir y gwelliant hwn, bydd angen gwneud newid argraffu i bennawd yr adran hon, a bydd angen cyflwyno gwelliannau canlyniadol yng Nghyfnod 3.*

### Suzy Davies

2A

As an amendment to amendment 2, line 2, leave out 'as soon as practicable' and insert 'no later than 3 months'.

Fel gwelliant i welliant 2, llinell 2, hepgorer 'cyn gynted ag y bo'n ymarferol' a mewnosoder 'heb fod yn hwyrach na 3 mis'.

### Janet Finch-Saunders

2D

As an amendment to amendment 2, line 3, leave out 'publish' and insert 'lay before the Assembly'.

Fel gwelliant i welliant 2, llinell 3, hepgorer 'chyoeddi' a mewnosoder 'gosod gerbron y Cynulliad'.

### Janet Finch-Saunders

2E

As an amendment to amendment 2, after line 4, insert—

- '() A report under subsection (1) must contain information about the effect that the changes to the law made by section 1 has had on the number of people prosecuted for corporal punishment of a child taking place in Wales.'

Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i adroddiad o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth am yr effaith y mae'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1 wedi'i chael ar nifer y bobl a gafodd eu herlyn am roi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.'

### Janet Finch-Saunders

2F

As an amendment to amendment 2, after line 4, insert—

- '() A report under subsection (1) must contain information about the effect that the changes to the law made by section 1 has had on the numbers of children who are being looked after by a local authority in Wales.'

Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i adroddiad o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth am yr effaith y mae'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1 wedi'i chael ar nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru.'



**Janet Finch-Saunders**

**2G**

As an amendment to amendment 2, after line 4, insert—

- '() A report under subsection (1) must contain information about the effect that the changes to the law made by section 1 has had on—
- (a) the number of reports made to the police of corporal punishment of a child taking place in Wales, and
  - (b) the number of such reports made by members of the public.'

Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i adroddiad o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth am yr effaith y mae'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1 wedi'i chael ar—
- (a) nifer yr adroddiadau a wnaed i'r heddlu o achosion o roi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru, a
  - (b) nifer yr adroddiadau o'r fath a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd.'

**Janet Finch-Saunders**

**2H**

As an amendment to amendment 2, after line 4, insert—

- '() A report under subsection (1) must contain information about the effect that the changes to the law made by section 1 has had on—
- (a) the number of reports made to local authority social services departments in Wales of corporal punishment of a child taking place in Wales, and
  - (b) the number of such reports made by members of the public.'

Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i adroddiad o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth am yr effaith y mae'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1 wedi'i chael ar—
- (a) nifer yr adroddiadau a wnaed i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru o achosion o roi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru, a
  - (b) nifer yr adroddiadau o'r fath a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd.'

**Janet Finch-Saunders**

**2I**

As an amendment to amendment 2, after line 4, insert—

- '() A report under subsection (1) must contain information about the costs incurred by any devolved Welsh authority as a consequence of the changes to the law made by section 1.
- ( ) In subsection (*first subsection to be inserted by this amendment*), "devolved Welsh authority" has the same meaning as in the Government of Wales Act 2006 (see section 157A).'



Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i adroddiad o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth ynghylch y costau yr eir iddynt gan unrhyw awdurdod datganoledig Cymreig o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1.
- ( ) Yn is-adran (*yr is-adran gyntaf a fewnosodir gan y gwelliant hwn*), mae i "awdurdod datganoledig Cymreig" yr un ystyr â "devolved Welsh authority" yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006 (gweler adran 157A).'.

**Janet Finch-Saunders**

**2J**

As an amendment to amendment 2, after line 4, insert—

- '() A report under subsection (1) must contain information about the costs incurred by any devolved Welsh authority for the training of employees as a consequence of the changes to the law made by section 1.
- ( ) In subsection (*first subsection to be inserted by this amendment*), "devolved Welsh authority" has the same meaning as in the Government of Wales Act 2006 (see section 157A).'.

Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i adroddiad o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth ynghylch y costau yr eir iddynt gan unrhyw awdurdod datganoledig Cymreig ar gyfer hyfforddi cyflogeon o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1.
- ( ) Yn is-adran (*yr is-adran gyntaf a fewnosodir gan y gwelliant hwn*), mae i "awdurdod datganoledig Cymreig" yr un ystyr â "devolved Welsh authority" yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006 (gweler adran 157A).'.

**Janet Finch-Saunders**

**2K**

As an amendment to amendment 2, after line 4, insert—

- '() A report under subsection (1) must contain information about the number of persons employed by any devolved Welsh authority who have attended training as a consequence of the changes to the law made by section 1.
- ( ) In subsection (*first subsection to be inserted by this amendment*), "devolved Welsh authority" has the same meaning as in the Government of Wales Act 2006 (see section 157A).'.

Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '() Rhaid i adroddiad o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth ynghylch nifer y personau a gyflogir gan unrhyw awdurdod datganoledig Cymreig sydd wedi mynychu hyfforddiant o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1.
- ( ) Yn is-adran (*yr is-adran gyntaf a fewnosodir gan y gwelliant hwn*), mae i "awdurdod datganoledig Cymreig" yr un ystyr â "devolved Welsh authority" yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006 (gweler adran 157A).'.



**Suzy Davies**

**2B**

As an amendment to amendment 2, line 5, leave out '5' and insert '3'.

Fel gwelliant i welliant 2, llinell 5, hepgorer '5' a mewnosoder '3'.

**Julie Morgan**

**2**

Page 1, after line 20, insert a new section—

**'[ ] Report on the effect of section 1**

- (1) The Welsh Ministers must, as soon as practicable after the expiry of the reporting period, prepare and publish a report on the effect of the abolition, by virtue of section 1, of the defence of reasonable punishment.
- (2) In subsection (1), "reporting period" means the period of 5 years beginning with the day on which section 1 comes into force.'

Tudalen 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Adroddiad ar effaith adran 1**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cyfnod adrodd ddod i ben, lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith diddymu, yn rhinwedd adran 1, amddiffyniad cosb resymol.
- (2) Yn is-adran (1), ystyr "cyfnod adrodd" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 1 i rym.'

**Suzy Davies**

**3A**

As an amendment to amendment 3, after line 5, insert—

- '(3) Any statutory instrument containing regulations made by the Welsh Ministers under subsection (1) is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.'

Fel gwelliant i welliant 3, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

- '(3) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.'



**Julie Morgan**

**3**

Page 1, after line 20, insert a new section –

**'[ ] Power to make transitional etc. provision by regulations**

- (1) Regulations made by the Welsh Ministers may make transitory, transitional or saving provision in connection with the coming into force of section 1.
- (2) The power to make regulations under subsection (1) is exercisable by statutory instrument.'

Tudalen 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd –

**'[ ] Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc. drwy reoliadau**

- (1) Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod ag adran 1 i rym.
- (2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan is-adran (1) yn arferadwy drwy offeryn statudol.'

**Janet Finch-Saunders**

**11**

Page 1, after line 20, insert a new section –

**'[ ] Duty to ensure sufficient funding**

- (1) The Welsh Ministers must ensure that a relevant body receives sufficient funding to enable the relevant body to take such action as it considers necessary as a consequence of the changes to the law made by section 1.
- (2) In subsection (1), "relevant body" means –
  - (a) a council of a county or county borough in Wales;
  - (b) a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006;
  - (c) a National Health Service trust established under section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006.'

Tudalen 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd –

**'[ ] Dyletswydd i sicrhau cyllid digonol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod corff perthnasol yn cael cyllid digonol i alluogi'r corff perthnasol i gymryd y cyfryw gamau sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1.
- (2) Yn is-adran (1), ystyr "corff perthnasol" yw –
  - (a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
  - (b) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
  - (c) ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.'



**Janet Finch-Saunders**

12

Page 1, after line 20, insert a new section –

**'[ ] Duty to ensure sufficient funding**

- (1) The Welsh Ministers must ensure that any devolved Welsh authority which is required to take action as a consequence of the changes to the law made by section 1 receives sufficient funding.
- (2) In subsection (1), “devolved Welsh authority” has the same meaning as in the Government of Wales Act 2006 (see section 157A).’.

Tudalen 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd –

**'[ ] Dyletswydd i sicrhau cyllid digonol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw awdurdod datganoledig Cymreig y mae'n ofynnol iddo gymryd camau o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wnaed gan adran 1 yn cael cyllid digonol.
- (2) Yn is-adran (1), mae i “awdurdod datganoledig Cymreig” yr un ystyr â “devolved Welsh authority” yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler adran 157A).’.

**Julie Morgan**

4

Section 2, page 1, line 22, after ‘section’ at the first place where it appears, insert ‘, section [section to be inserted by amendment 1]’.

Adran 2, tudalen 1, llinell 23, ar ôl ‘hon’ yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ‘, adran [yr adran a fewnosodir gan welliant 1]’.

**Julie Morgan**

5

Section 2, page 1, line 22, after ‘section’ at the first place where it appears, insert ‘, section [section to be inserted by amendment 2]’.

Adran 2, tudalen 1, llinell 23, ar ôl ‘hon’ yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ‘, adran [yr adran a fewnosodir gan welliant 2]’.

**Julie Morgan**

6

Section 2, page 1, line 22, after ‘section’ at the first place where it appears, insert ‘, section [section to be inserted by amendment 3]’.

Adran 2, tudalen 1, llinell 23, ar ôl ‘hon’ yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ‘, adran [yr adran a fewnosodir gan welliant 3]’.



**Suzy Davies** 9

Section 2, page 1, at the beginning of line 24, insert 'Subject to subsection [subsection to be inserted by amendment 10].'.

Adran 2, tudalen 1, ar ddechrau llinell 25, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i is-adran [yr is-adran sydd i'w mewnosod gan welliant 10].'.

**Janet Finch-Saunders** 13

Section 2, page 1, at the beginning of line 24, insert 'Subject to subsection [subsection to be inserted by amendment 15].'.

Adran 2, tudalen 1, ar ddechrau llinell 25, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i is-adran [yr is-adran sydd i'w mewnosod gan welliant 15].'.

**Janet Finch-Saunders** 14

Section 2, page 1, at the beginning of line 24, insert 'Subject to subsection [subsection to be inserted by amendment 16].'.

Adran 2, tudalen 1, ar ddechrau llinell 25, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i is-adran [yr is-adran sydd i'w mewnosod gan welliant 16].'.

**Julie Morgan** 7

Section 2, page 1, line 24, leave out 'on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by statutory instrument' and insert 'at the expiry of the period of 2 years beginning with the day after the day on which this Act receives Royal Assent'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 25, hepgorer 'ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol' a mewnosoder 'pan ddaw'r cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol i ben'.

**Suzy Davies** 10

Section 2, page 1, after line 25, insert—

'() Section 1 must not come into force until the Crown Prosecution Service has revised its guidance to take account of the changes to the law made by section 1.'

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'() Ni chaniateir i adran 1 ddod i rym nes bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adolygu ei ganllawiau er mwyn ystyried y newidiadau i'r gyfraith a wneir gan adran 1.'



**Janet Finch-Saunders**

**15**

Section 2, page 1, after line 25, insert—

- '() Section 1 must not come into force until the UK Government, police, and Crown Prosecution Service have established a pathway (as an alternative to prosecution) for those affected by the changes to the law made by section 1.'

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

- '() Ni chaniateir i adran 1 ddod i rym nes bod Llywodraeth y DU, yr heddlu, a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi sefydlu cynllun llwybr (fel dewis amgen i erlyn) i'r rhai yr effeithir arnynt gan y newidiadau i'r gyfraith a wneir gan adran 1.'

**Janet Finch-Saunders**

**16**

Section 2, page 1, after line 25, insert—

- '() Section 1 must not come into force until the Welsh Ministers have established parenting support services for those affected by the changes to the law made by section 1.'

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

- '() Ni chaniateir i adran 1 ddod i rym nes bod Gweinidogion Cymru wedi sefydlu gwasanaethau cymorth rhianta i'r rhai yr effeithir arnynt gan y newidiadau i'r gyfraith a wneir gan adran 1.'

**Julie Morgan**

**8**

Section 2, page 1, line 26, leave out subsection (3).

Adran 2, tudalen 1, llinell 27, hepgorer is-adran (3).



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales